# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 3

CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA

*Gweinyddu a gorfodi*

PROSPECTIVE

### 58 Gweinyddu

(1) Caiff rheoliadau bagiau siopa benodi person ("gweinyddwr") i weinyddu darpariaeth a wneir gan y rheoliadau.

(2) Caniateir penodi mwy nag un person i fod yn weinyddwr.

(3) Caiff y rheoliadau roi pwerau i weinyddwr, neu osod dyletswyddau arno.

(4) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (3) yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n gwneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n gymwys i'r gweinyddwr, neu

(b) i unrhyw ddeddfiad o'r fath fod yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt, at ddibenion y rheoliadau.

(5) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at weinyddwr yn cynnwys person a benodir gan weinyddwr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 58 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 58.